

CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R CABINET DROS ADNODDAU

DYDD Gwener, 22 Hydref 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: D.M. Jenkins (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

S. Jones, Arweinydd Cymorth Tenantiaeth

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.25 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 MEDI, 2021

PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi 2021, gan ei fod yn gywir.

3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

4. DILEU DYLEDION TENANTIAID CYN-DENANT

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd, **PENDERFYNWYD** yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys data personol am gyn-denantiaid y cyngor, ynghyd â manylion am eu hól-ddyledion rhent. **Nid oedd cyfiawnhad dros gyhoeddi rhenti unigol, a byddai hynny'n anfanteisiol i hawliau a rhyddid yr unigolion perthnasol. Felly roedd y prawf budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd wedi ei lunio'n unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran dyledion cyn-denantiaid ac yn gofyn am ddileu dyledion o fwy na £1,500 gan gyn-denantiaid.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yr achosion a amlinellwyd yn yr adroddiad ac ystyriodd yr adroddiadau unigol ar gyfer pob un o'r cyn-denantiaid yn nodi'r rhesymau pam y ceisiwyd dileu'r gwaith a oedd yn cynnwys amgylchiadau personol.

PENDERFYNWYD dileu ôl-ddyledion y cyn-denantiaid, fel yr oeddid wedi manylu arnynt yn yr adroddiad, am nad oedd modd eu hadennill

AELOD O'R CABINET

DYDDIAD